Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Together in practice

# Yn uchelgeisiol dros newid

## Ymchwil i brosesau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodweddion gwarchodedig pobl



**Crynodeb o'r canfyddiadau**

Cyhoeddwyd 20 Hydref 2020

nmc.org.uk/edi

# Amdanom ni

**Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol dros 700,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.**

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydyn ni'n hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydyn ni'n cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio i bryderon ynglŷn â nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydyn ni'n credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fydd angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydyn ni'n **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydyn ni'n creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydyn ni'n gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd ac ar ofal cymdeithasol. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydyn ni'n defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.




# Cyflwyniad

**Mae tegwch wrth galon ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy a thryloyw. Rydyn ni'n gweithio i roi diwedd ar wahaniaethu, creu cyfle cyfartal, a chydweithio â'n partneriaid i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag unrhyw anfanteision y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.**

Ym mis Awst 2019, fe wnaethom ddechrau rhaglen waith uchelgeisiol i asesu effaith ein prosesau rheoleiddio ar wahanol grwpiau o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Rydyn ni eisiau deall a yw ein prosesau'n golygu canlyniadau gwahanol i weithwyr proffesiynol sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydyn ni eisiau gwybod pam fod y gwahaniaethau hyn yn digwydd a chymryd camau i atal unrhyw annhegwch.

Rydyn ni'n gwybod fod hwn yn ddarn enfawr o waith. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae angen cymorth ac arweiniad arnom gan ein rhanddeiliaid. Drwy rannu'r canfyddiadau cychwynnol hyn a'n camau nesaf, gobeithio y bydd ein rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i'n cefnogi a'n herio. Rydyn ni eisiau clywed gan ein partneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol am yr hyn y maen nhw'n ei ddeall o'r canfyddiadau hyn a'r hyn y dylem ei wneud nesaf yn eu barn nhw.

Yr adroddiad hwn yw'r cam cyntaf. Mae'n cyflwyno ein dadansoddiad o'n gwybodaeth a'n data ein hunain, ac ymchwil a thystiolaeth ehangach. Rydyn ni wedi edrych ar nifer y nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio sy'n cael canlyniadau gwahanol, ac wedi defnyddio dadansoddiad ystadegol i bennu pa ffactorau sydd wir yn dylanwadu ar y canlyniadau mae pobl yn eu cael. Rydyn ni hefyd wedi cyfrifo'r union wahaniaeth pwynt canran rhwng grwpiau.



# Beth rydyn ni wedi'i ganfod

**Mae llawer o'r hyn rydyn ni wedi'i ganfod yn adleisio canfyddiadau gwaith ymchwil blaenorol. Gwyddom fod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn profi anghydraddoldebau sylweddol mewn sawl agwedd o'u bywydau.**

Mae'r anghydraddoldebau hyn yn dechrau o oedran ifanc gyda chyrhaeddiad addysgol is ac iechyd corfforol a meddyliol salach i rai grwpiau. Nid yw'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn wahanol i bobl yn y boblogaeth ehangach. Efallai y byddan nhw'n profi anghydraddoldebau mewn addysg, iechyd, cyfiawnder troseddol a thai.

Er bod tystiolaeth am y gwahaniaethau hyn wedi bod ar gael ers amser maith, mae'r mudiad Black Lives Matter ac effaith anghymesur y coronafeirws ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol, wedi dod â gwahaniaethau i'r amlwg.

Fel gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, efallai y bydd y bobl ar ein cofrestr yn profi mwy o anghydraddoldebau ar sail eu nodweddion gwarchodedig. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol du, Asiaidd ac anabl yn gweld llai o gynnydd ac yn cael llai o dâl ond mwy o wahaniaethu a mwy o gyflyrau iechyd meddwl. Mae llawer o'r materion rydyn ni wedi dod ar eu traws – profiadau addysgol gwahanol, cyfraddau ail-ddilysu is a chyfraddau uwch o atgyfeiriadau i brosesau addasrwydd i ymarfer – yn effeithio ar weithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys meddygon, deintyddion a gweithwyr cymdeithasol.

Dyma'r gwahaniaethau mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn eu profi:

- Cyfraddau derbyn is ar gyrsiau nyrsio a bydwreigiaeth sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer myfyrwyr Du ac Asiaidd.
- Llai o siawns o gofrestru drwy ein proses dramor ar gyfer yr ymgeiswyr canlynol: Du; anabl; deurywiol; dros 41 oed; Mwslim; neu sydd â rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd a gwlad hyfforddi nad ydyn ni'n ei hadnabod (neu y mae'n well ganddyn nhw beidio â dweud).
- Llai o siawns o ailddilysu ar gyfer y nyrsys a bydwragedd canlynol: gwryw, dros 60 oed, anabl, Gwyn neu'r rheini nad ydy ni'n gwybod beth yw eu hethnigrwydd (neu y mae'n well ganddyn nhw beidio â dweud); y rheini sy'n byw y tu allan i'r DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE) neu Ardal Economaidd Ewrop (AEE); neu sydd wedi'u hyfforddi yn Awstralia. Mae llawer o hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau gwerthusiad annibynnol Ipsos Mori o ailddilysu.
- Atgyfeiriadau uwch gan grwpiau penodol o nyrsys a bydwragedd – llawer ohonyn nhw wedi'u hadlewyrchu yn ymchwil Prifysgol Greenwich i effeithiau anghymesur yn ein proses addasrwydd i ymarfer. Wrth edrych ar nodweddion gwarchodedig unigolyn ochr yn ochr â lle maen nhw wedi hyfforddi, yn byw ac yn gweithio, mae'n dangos bod gweithwyr proffesiynol sydd: yn ddynion, yn drawsrywiol, yn ddeurywiol, yn Ddu, yn byw mewn rhai rhannau o'r DU neu mewn llefydd fel Ynysoedd y Sianel, wedi'u hyfforddi yng Ngogledd Iwerddon, yn gweithio mewn lleoliadau fel y sector

cosmetig neu esthetig, neu'n rhywun sydd ag anabledd nad ydyn ni'n gwybod amdano yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio atom ni o gymharu ag eraill.

- Fel Greenwich gwelsom fod cyflogwyr yn dal i gyfeirio cyfrannau uwch o nyrsys a bydwragedd o leiafrifoedd ethnig. Mae aelodau'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n dal i gyfeirio cyfrannau uwch o nyrsys a bydwragedd Gwyn. Mae'r achosion hyn yn fwy tebygol o gael eu cau adeg sgrinio o'u cymharu â'r rheini a gaiff eu cyfeirio gan gyflogwyr, sy'n fwy tebygol o symud ymlaen i'r cam dyfarnu.
- Ac eithrio gweithwyr proffesiynol nad oeddem yn gwybod beth oedd eu hethnigrwydd (neu a oedd yn well ganddyn nhw beidio â dweud), canfu Greenwich nad oedd ethnigrwydd yn dylanwadu ar ba mor bell yr aeth achos unigolyn yn ei flaen yn ein proses addasrwydd i ymarfer ar ôl ystyried ffynhonnell yr atgyfeiriad. Fodd bynnag, roedd hyn yn seiliedig ar ethnigrwydd yn cael ei adnabod mewn dim ond 40 y cant o achosion.
- Gyda data mwy cyflawn, rydyn ni wedi canfod bod ethnigrwydd yn dylanwadu ar hynt achosion. Mae achosion sy'n cynnwys nyrsys a bydwragedd Du yn fwy tebygol o symud ymlaen i'r cam dyfarnu o'i gymharu â gweithwyr proffesiynol Gwyn. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr Du proffesiynol yn fwy tebygol o gael eu tynnu oddi ar ein cofrestr na nyrsys a bydwragedd Gwyn.
- Fel Greenwich, daethom o hyd i ganlyniadau gwahanol ar gyfer grwpiau eraill hefyd. Mae hyn yn cynnwys dynion, nyrsys a bydwragedd anabl a'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau nad ydyn ni'n eu hadnabod o'u cymharu â menywod, pobl nad ydyn nhw'n anabl a'r rheini sy'n gweithio mewn unrhyw leoliad arall.



Mae cael yr wybodaeth hon yn bwysig ond nid ydyn ni'n gwybod eto pam mae hyn yn digwydd. Nid ydyn ni'n gwybod faint sy'n gyfrifol am gael data mwy cyflawn, na faint sy'n ddyledus i'n prosesau ein hunain, na faint ydyw oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Byddwn yn edrych ar hyn i gyd yn ein camau nesaf.

Wrth ddatblygu ein camau nesaf, mae angen i ni ystyried beth sydd wedi digwydd ers i ni ddadansoddi'r data yn yr adroddiad hwn. Mae pandemig byd-eang y coronafeirws wedi newid gwaith a bywyd y nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio ar ein cofrestr. Mae hefyd wedi effeithio ar y miloedd o bobl sydd wedi ymuno â'n cofrestr dros dro brys Covid-19 i helpu i gefnogi ymateb y DU. Mae wedi golygu gweithio mewn amgylchiadau unigryw, sydd yn aml yn heriol ac yn anodd. Ac mae wedi cynyddu'r risg o iechyd corfforol a meddyliol negyddol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwaelodlin i fonitro effaith Covid-19 ar ein nyrsys, ein bydwragedd a'n cymdeithion nyrsio, ac ar ein prosesau rheoleiddio.

Rydyn ni wedi cyflwyno llawer o newidiadau i'r prosesau a gafodd eu harchwilio yn yr adroddiad hwn. Rydyn ni wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r broses dramor sy'n ei gwneud yn fwy effeithlon. Rydyn ni wedi gwneud newidiadau i ailddilysu mewn ymateb i'r gwerthusiad annibynnol. Rydyn ni wedi diwygio ein dull gweithredu o ran addasrwydd i ymarfer mewn ymateb i ganfyddiadau Greenwich, adborth am brofiadau pobl, a gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad gweithwyr proffesiynol unigol.

Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod pobl wrth galon y broses. Mae hyn yn golygu hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a dysgu, gan weithio'n agosach gyda chyflogwyr i ddatrys materion yn lleol lle bo hynny'n bosibl, a rhoi mwy o ystyriaeth i gyd-destun digwyddiadau. Daw'r adroddiad hwn yn rhy gynnar i ystyried y newidiadau hyn, ond mae'n rhoi gwaelodlin ddefnyddiol inni y gallwn fesur cynnydd yn ei herbyn.



# Y camau nesaf

**Rydyn ni eisoes wedi cymryd rhai camau a allai helpu, fel gwella'r broses dramor, gan ddatblygu adnodd newydd i gyflogwyr i'w cefnogi i ymchwilio i bryderon yn lleol a bod yn fwy systematig o ran sut rydyn ni'n ystyried cyd-destun mewn achosion addasrwydd i ymarfer.**

Mae angen inni roi amser i'r newidiadau hyn gael effaith. Ond nid ydym ni eisiau llaesu dwylo. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ailedrych ar y materion hyn ac yn mesur cynnydd yn erbyn y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

Mae rhagor o gamau y gallwn eu cymryd nawr, fel edrych ar y ffordd orau o fesur cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein system sicrhau ansawdd addysg, yn ogystal â chomisiynu rhagor o waith i ddeall profiadau pobl o ailddilysu, a pham mae cyflogwyr, aelodau o'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cyfeirio grwpiau penodol atom. Byddwn hefyd yn parhau i wella ein data er mwyn i ni allu deall yn well beth yw dylanwad lle mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn hyfforddi ac yn gweithio ar eu profiadau o'n prosesau.

Ond rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud mwy, felly byddwn ni'n gweithio gyda'n rhanddeiliaid i gynllunio camau gweithredu pellach ar gyfer y dyfodol wrth i'n dealltwriaeth o achosion y gwahaniaethau hyn ddod yn gliriach.



Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Together in practice

**Darllenwch ein hadroddiad yn llawn yn nmc.org.uk/edi**

---

**nmc.org.uk**

**@nmcnews**

**@nmcuk**

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)